SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

The Rt Hon Suella Braverman MP
Home Secretary
Home Office
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

Ein Cyf / Our Ref: AD/HW/2324

02 Hydref/ October 2023

Annwyl Ysgrifennydd Cartref,

**Atal Lladdiadau – Arolwg cyfraniad yr heddlu tuag at atal lladdiadau.**

Yn unol â'r statud, ysgrifennaf atoch gyda fy sylwadau ar Adroddiad Arolygaeth Ei Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS) ar Atal Lladdiadau – Arolwg cyfraniad yr heddlu tuag at atal lladdiadau.

Fel arolwg cenedlaethol, nid ydy'r adroddiad hwn yn benodol ar gyfer Gogledd Cymru. Ni chafodd yr Heddlu ei adolygu fel rhan o'r arolwg. Canfu'r arolygaeth fod y mwyafrif o heddlu yn gyffredinol yn gallu nodi patrymau ac achosion lladdiadau yn effeithiol. Roeddent yn gallu blaenoriaethu a dyrannu'r adnoddau iawn er mwyn ymdrin â nhw. Mae tri argymhelliad o fewn yr adroddiad, hefo dau yn cael eu clustnodi ar gyfer Prif Gwnstabliaid.

Mae'r argymhelliad cyntaf yn gofyn i heddluoedd greu ymdriniaeth er mwyn creu adroddiad dadansoddol digonol o ran eu hymchwiliadau i farwolaethau. Rwyf yn fodlon fod Heddlu Gogledd Cymru'n creu adroddiad dadansoddol i ymchwiliadau marwolaethau yn flynyddol sy'n cael ei ysgrifennu gan y Pennaeth Dadansoddi Cudd-wybodaeth. Mae'r adroddiad yn cynnwys data o'r sefydliadau perthnasol. Cynhelir dadansoddiad ar draws achosion ar gyfer bob achos o laddiad. Mae'r adroddiad nesaf i fod ddechrau 2024.

Mae'r argymhelliad olaf yn gofyn i heddluoedd gael proses mewn lle er mwyn nodi a dysgu o laddiadau a

Dear Home Secretary,

**Homicide Prevention – An inspection of the police contribution to the prevention of homicide.**

As required by statue, I am writing to you with my comments on His Majesty's Inspectorate of Constabulary, Fire and Rescue Service (HMICFRS) Homicide Prevention – An inspection of the police contribution to the prevention of homicide.

As a national inspection, this report is not North Wales specific and the Force were not reviewed as part of the inspection. The inspectorate found that overall, most police forces can identify the patterns and causes of homicide effectively and were able to prioritise and allocate the right resources to tackle them. There are three recommendations within the report, with two being assigned to Chief Constables.

The first recommendation requests that forces devise an approach to sufficiently produce an analytical report concerning its death investigations. I am content that North Wales Police produce an analytical report into death investigations on an annual basis which is written by the Head of Intelligence Analysis. The report includes data from the relevant organisations and cross case analysis will be conducted for each homicide case. The next report is due in early 2024.

The final recommendation puts a requirement on forces to have a process in place to quickly identify

Glan y Don, Bae Colwyn LL29 8AW
Ffôn / Tel: 01492 805486
Ebost / Email: OPCC@nthwales.pnn.police.uk
Glan y Don, Colwyn Bay LL29 8AW
Ffacs / Fax: 01492 805489

thrais difrifol yn sydyn. Rwyf yn ymwybodol nad ydy'r Heddlu'n cydymffurfio hefo'r argymhelliad hwn. Fodd bynnag, rwyf felly'n fodlon fod gwaith ar y gweill sydd wedi cynnwys trafodaethau hefo Heddlu Essex sydd wedi'u nodi fel bod hefo arfer gorau am adolygu digwyddiadau'n brydlon. Gwnaf fonitro cynnydd yr Heddlu yn fy Mwrdd Gweithredol Strategol lle gwnaf ddwyn y Prif Gwnstabl yn atebol. Mae hyn er mwyn sicrhau fod yr argymhelliad hwn wedi'i gwblhau o fewn y ffrâm amser a roddir.

and learn from homicides and serious violence incidents. I am aware that the Force aren't currently compliant with this recommendation. I am satisfied however, that work is ongoing which has included discussions with Essex Police who have been identified as having best practice for reviewing incidents promptly. I will monitor the Force's progress at my Strategic Executive Board where I hold the Chief Constable to account to ensure that this recommendation is completed within the given timeframe.

Yn gywir

Yours sincerely

Andy Dunbobbin
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru /North Wales Police and Crime Commissioner

Glan y Don, Bae Colwyn LL29 8AW
Ffôn / Tel: **01492 805486**
Ebost / Email: **OPCC@nthwales.pnn.police.uk**
Glan y Don, Colwyn Bay LL29 8AW
Ffacs / Fax: **01492 805489**